Pecyn Dogfennau

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Mawrth, 22 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Thomas, S.M. Allen, K.V. Broom, I.W. Davies, K.Davies, W.T. Evans, R. James (yn lle K. Madge), D. Jones (yn lle A.L. Fox), M.J.A. Lewis, K. Lloyd, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone a/ac D.T. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr J. Tremlett, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Corner, Swyddog Technegol

**Rhith-Gyfarfod - 2.00  - 3.10 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. L. Fox a K. Madge.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATED I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. AROLYGIAD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) O WASANAETHAU INTEGREDIG; Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR ARGYMHELLION SY'N DEILLIO O'R AROLYGIAD

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am hynt cynllun gweithredu Cyngor Sir Caerfyrddin a ddatblygwyd yn dilyn arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru gynnal arolygiad pythefnos o wasanaethau pobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2019 o dan y thema "Atal a Hybu Annibyniaeth". Cadarnhaodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019, nifer o gryfderau a meysydd arferion da a ddangoswyd gan yr Awdurdod. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at rai meysydd i'w gwella. O ganlyniad, datblygodd Gwasanaethau Integredig

Cyngor Sir Caerfyrddin gynllun gweithredu, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2019, i fynd i'r afael â meysydd lle gallai wneud gwelliannau. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2019.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth y Pwyllgor, er gwaethaf y pandemig, fod camau gweithredu yn parhau i gael eu rhoi ar waith a bod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â'r cynllun. Cafwyd gwelliant o ran monitro achosion yn sgil defnyddio Eclipse (rhaglen feddalwedd newydd). Byddai cyflwyno Eclipse ym mis Mawrth 2021 hefyd yn helpu i wella gwaith monitro achosion.

Dywedwyd y byddai Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal archwiliad sicrwydd yn gynnar yn 2021 i adolygu cynnydd mewn perthynas â'r cynllun yn ffurfiol.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol:

- Mynegwyd pryder, oherwydd y defnydd o'r system TG ar gyfer cofnodi achosion, efallai na fydd yr Awdurdod yn clywed stori lawn y cleient. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig mai'r hyn a oedd yn wirioneddol bwysig oedd bod y staff yn cael sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' ac y gallai rhai aelodau o staff gael gwybod y stori'n well nag eraill. Roedd goruchwylwyr yn gweithio gyda'r staff i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i mynegi'n gywir yn y systemau.
- Mynegwyd pryder ynghylch swyddi gwag.
  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod llawer o'r swyddi gwag wedi'u llenwi a bod nifer o geisiadau'n cael eu derbyn pan hysbysebir swyddi.
- Nodwyd bod 80% o'r staff wedi dweud bod modd rheoli'r llwyth gwaith. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod llwythi achosion yn heriol. Ar ddechrau'r pandemig roedd llawer o waith wedi'i ohirio ond, ers diwedd yr haf, bu mewnlifiad o atgyfeiriadau a oedd wedi cynyddu llwythi achosion. Roedd achosion yn cael eu blaenoriaethu er mwyn osgoi gorlwytho staff. Cafodd yr holl asesiadau eu llofnodi gan Uwch-reolwyr a fyddai'n sicrhau bod y lefel gywir o gymorth yn cael ei darparu a, lle bo angen, bod gwaith yn cael ei ailddosbarthu.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd mai Eclipse yw’r system newydd yn lle'r system reoli Care First. Ystyriwyd bod y dyddiad gweithredu, sef 1 Mawrth 2021, yn realistig a byddai cofnodion achosion oedolion yn cael eu gweithredu yn gyntaf ac yna cofnodion achosion plant ychydig fisoedd yn ddiweddarach.
- Dywedwyd ei bod yn aml yn anodd sicrhau pecynnau gofal yn yr ardaloedd mwy gwledig a bod yr adroddiad wedi tynnu sylw at yr angen am wasanaethau teg ar draws y sir gyfan.
  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod y sefyllfa wedi bod yn wahanol dros y naw mis diwethaf gan fod llawer o gleientiaid wedi lleihau eu pecynnau gofal oherwydd y pandemig. Dywedwyd bod pwysau o hyd yng ngogledd y sir a hefyd yng ngorllewin y sir ger y ffin â Sir Benfro. Roedd cynllun tymor hwy i dendro am gytundeb fframwaith gofal cartref newydd a'r gobaith oedd y byddai hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion o ran capasiti yn yr ardaloedd mwy gwledig.
- Cynghorwyd cleientiaid sy'n derbyn gofal drwy daliadau uniongyrchol ond a adawyd heb gymorth oherwydd bod gofalwyr yn hunanynysu i gysylltu â Delta lle byddai tîm argyfwng yn ymchwilio i'r mater.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynllun gweithredu wedi'i anelu at staff rheoli a staff rheng flaen. Er bod angen ymateb gan reolwyr, roedd staff rheng flaen wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Nodwyd bod yr adroddiad arolygu yn ddefnyddiol a bod rhai gwendidau eisoes wedi'u cydnabod gan yr Awdurdod cyn yr archwiliad.

- O ran cadw staff, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod staff yn tueddu i aros gyda'r Awdurdod a bod llawer ohonynt yn cael dyrchafiad, gan adael swyddi gwag mewn mannau eraill yn y sefydliad.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion sy'n deillio o Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Integredig.**

**5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 27 Ionawr, 2020.**

**6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19EG TACHWEDD, 2021.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 19 Tachwedd, 2020 gan eu bod yn gywir.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol